**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru,
a'r Trefnydd

23 Mawrth 2023

Annwyl Lesley,

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 4)

Yn ein cyfarfod yr wythnos hon, gwnaethom drafod eich llythyr dyddiedig 17 Mawrth 2023, lle gwnaethoch ddweud wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi symud y ddadl yn y Senedd ynghylch cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) o 21 Mawrth i 28 Mawrth 2023. Rydych yn nodi bod hyn yn bosibl am fod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi yn dechrau ar 19 Ebrill.

Rydych hefyd yn nodi, gan ei bod yn bosibl symud y ddadl, y byddech yn argymell terfyn amser diwygiedig ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 27 Mawrth, a'ch bod yn "gobeithio bod yr amser ychwanegol hwn yn caniatáu i'ch Pwyllgor ystyried Memorandwm Rhif 4".

Gwnaethom nodi bod Memorandwm Rhif 4 wedi ei osod yn ein cyfarfod ar 13 Mawrth 2023 a byddwch yn ymwybodol inni ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes, gan nodi nad oedd yr amserlen hon, yn ein barn ni, yn ymarferol i roi ystyriaeth ofalus a manwl i Femorandwm Rhif 4 a llunio adroddiad a allai lywio'r ddadl yn y Senedd ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil mewn modd ystyrlon a defnyddiol.

Rwyf o'r farn ein bod wedi dangos droeon y byddwn ni bob amser yn anelu at ymateb yn gadarnhaol i derfynau amser tynn. Fodd bynnag, nid yw oedi dadleuon fesul tipyn a gohirio terfynau amser adroddiadau o reidrwydd yn helpu nac yn galluogi fy Mhwyllgor (nag unrhyw un o Bwyllgorau eraill y Senedd, mae'n debyg) i gynllunio a chyflawni ein swyddogaeth graffu yn effeithiol, ac yn aml mae'n arwain at golli cyfleoedd.

Rydym yn gwerthfawrogi bod amserlen fusnes Senedd y Deyrnas Unedig y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, ac efallai bod Llywodraeth Cymru ei hun yn gorfod addasu ei rhaglen waith a’i thasgau allweddol mewn perthynas â'r Bil hwn. Rydym wedi dweud droeon bod diffyg rheolaeth dros y broses ddeddfwriaethol yn un o ddiffygion difrifol y sefyllfa sydd ohoni lle mae senedd wahanol yn deddfu dros Gymru ar faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Deallwn nad yw'r gwelliannau i'r Bil yr ymdrinnir â hwy ym Memorandwm Rhif 4 yn newid argymhelliad Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylai'r Senedd roi ei chydsyniad ar gyfer y Bil. Nodwn mai safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod “y Bil yn parhau i gyflwyno’r un pryderon cyfreithiol, cyfansoddiadol, polisi ac ymarferol.”

O ystyried nad yw'r Bil wedi cwblhau’r Cyfnod Adrodd yn Nhŷ’r Arglwyddi eto, rydym yn ymwybodol y gellid ei ddiwygio ymhellach, ac y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol ychwanegol yn sgil unrhyw ddiwygiadau o'r fath.

Byddwch yn ymwybodol inni ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol ar 8 Mawrth 2023 i fynegi ein pryderon y dylai Llywodraeth Cymru, pan fo Biliau sy’n destun memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn agosáu at ddiwedd y broses graffu yn Senedd y DU, wneud rhagor i sicrhau bod y Senedd yn cael gwybodaeth hollbwysig mewn modd mwy amserol.

Pe bai Llywodraeth Cymru yn cael gwybod y bwriedir cyflwyno gwelliannau perthnasol yn Senedd y DU at ddibenion trafodion y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ’r Arglwyddi, byddem yn croesawu cael rhybudd cynnar o hynny, hyd yn oed pe bai’r rhybudd hwnnw’n dod cyn gosod unrhyw femoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol angenrheidiol gerbron y Senedd. Gallai hynny fod yn ffordd o sicrhau ein bod yn cael amser i ystyried y datblygiadau a’r diwygiadau i'r Bil sy'n newid yn gyflym, ac i gynllunio sut y gallwn gyflwyno adroddiad i'r Senedd.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a’r Llywydd.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd